

Derwen
Emory
Durango

Afallen Felen

Draenen Wen

16 2376

9 2762

3 2987

18 2438

Ceiriosen Sunset Boulevard



1 3060 Masarnen Dail Pigfain



Criatfolen
Frehnhol
Cardinal



20 2535 Ceiriosen Japan



Draenen Wen



7 2741

11 2623

CF10 3DX



OS GWNAETHOCH FWYNNHAU Y LLWYBR PENCAMPWYR
HWN, BETH AM ROI CYNNIG AR Y CASGLIAD DEHEUOL

parcbute@caerdydd.gov.uk
02920 872730


Parc Bute, Caerdydd, CF10 3DX

Rydyn ni hefyd ar a

Mae Castell Caerdydd yn eiddo i Gyngor Caerdydd ac yn cael ei reoli ganddo. Gwybodaeth yn gywir wrth atgiraflu Technedd 2017.

Luniau'r coed trwy garedigrwydd cardiffparks.org.uk a Chyngor Caerdydd.

CARDIFF
CAERDYDD



CASGLIAD Y GOGLEDD

LLWYBR
PENCAMPWYR COED
PARC BUTE

This document is
available in English



Cymer tua
1 awr
i'w gwblhau

13 2409 Afallen Oporto

LLWYBR PENCAMPWYR
COED PARC BUTE

CASGLIAD Y GOGLEDD

Ym Mharc Bute ceir gardd goed sy'n gasgliad o arwyddocâd cenedlaethol. Disgrifiodd Dr Owen Johnson o Gofrestr Goed Ynysoedd Prydain y parc fel a ganlyn *unigryw ym mharciaid cyhoeddus Prydain ac Iwerddon oherwydd ei gwmpas a'i swm o ddwydd prin*.

Casgliad o goed wedi'i gynllunio yw gardd goed lle y caiff rhywogaethau o bedwar ban byd eu plannu am resymau addurnol a/neu addysgol. Gallwch ei ystyried fel amgueddfa goed awyr agored.

Mae gan Barc Bute y nifer uchaf o "bencampwyr coed" mewn unrhyw barc cyhoeddus yn y DU (y parc gyda'r all nifer uchaf o bencampwyr yw Parc y Rhath, felly mae gan Gaerdydd gasgliad unigryw o goed arbennig!) Y rhywogaeth dataf wedi ei chofnodi ar Ynysoedd Prydain neu sydd â'r cylchfesur boncyff mwyaf wedi ei fesur 1.5 m oddi ar y llawr yw coeden sy'n bencampwr.



5 3888 Celyn Cyrliog



Pan fyddwch ar y safle, byddwch yn sylwi bod gan yr holl bencampwyr coed bostyn pren o'u blaenau sy'n dangos label pencampwr glas y goeden. Bydd y label hwn yn dweud wrthyfch y flwyddyn yr enillodd y goeden ei statws pencampwr am y tro cyntaf, ac a yw wedi'i ennill am ei uchder (U), ei chylchfesur (C) neu'r ddau (U a C).

Ar ben y postyn, ceir dau god QR sy'n cynnwys cyfarwyddiadau Cymraeg a Saesneg i'ch helpu i ddarllen y map a lleoli'r goeden nesaf ar hyd y llwybr. Dylai fod gan y coed label du arnynt yn ogystal â'u rhif tag.

Peidiwch â disgwyl i'n holl bencampwyr fod yn anferth gan fod rhai coed yn tyfu'n naturiol fyr o'u cynharu a rhywogaethau eraill. Yn ogystal, mae'n bosib bod rhai coed wedi'u dosbarthu fel pencampwyr o ganlyniad i'w prinder yn hytrach na'u taldra. Yn syml, ychydig o gystadleuaeth sydd gan enghreifftiau gwybyddus eraill yn y DU.



Mae'r llwybr yn cynnwys cerdded oddi ar brif lwybrau cerdded ar laswellt neu ar hyd lwybrau anffurfiol ar draws tir agored yn bennaf. Am y rheswm hwn, **nid yw'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn neu goetsis**.
Dylid gwisgo esgidiau caeedig neu wellingtons.



• Lawrlwythwch Ap darlennedd QR am ddim
• Agorwch yr Ap
• Dangoswch y cod QR i'r camera fel petaech am dynn llun

Mae'r llwybr hwn yn defnyddio technoleg cod QR sy'n swnio'n dechnegol iawn ond mae'n hawdd iawn ei ddefnyddio.

- Ni fydd angen WiFi amoch
- Ni fyddwch yn defnyddio unrhyw ddata
- Mae cyfeiriadau wedi'u nymwreiddio yn y cod ei hun


Mae angen i chi gael darlennedd cod QR a ffôn clyfar sydd â chamera er mwyn cael at y cyfarwyddiadau ysgrifenedig.

Gallwch lawrlwytho darlennedd cod QR am ddim o'ch siop appiau naill ai drwy ddefnyddion eich cynllun data neu'r WiFi cyhoeddus am ddim sydd ar gael yng Nghanolfan Ad-dysg Parc Bute. Bydd aelod o staff yn hapus i'ch cynorthwyo.


Gwybodaeth Bellach

Dim ond coed â statws pencampwr y DU sydd wedi'u cynnwys ar y llwybr. Fodd bynnag, mae'r parc yn cynnwys nifer o goed â statws pencampwr ar lefel Cymru a Sir Forgannwg.

Mae mwy o wybodaeth am y coed hyn ar gael yn y gwefannau a restrir isod.



www.cardiffparks.org.uk
Gwybodaeth gyffredinol am gasgliad gardd goed Parc Bute gan gynnwys ffotograffau o'r pencampwyr a choed nodedig eraill trwy'r tymhorau.



www.treeregister.org
Gwefan yr elusen gofrestrddig sy'n cofnodi a choladu gwybodaeth am goed nodedig y DU, gan gynnwys pencampwyr. Dyma'r ffynhonnell awdurdodol ar gyfer rhoi statws pencampwr i goed.



LLWYBR PENCAMPWYR COED PARC BUTE

CASGLIAD Y GOGLEDD



Cymer tua
1 awr
i'w gwblhau

Mynedfa Gerddi Sophia



PARC
BUTE
PARK
& ARBORETUM

Mae'r parc yn agor am 7.30am ac yn cau 30 munud cyn machlud haul. Mae'r amseroedd cau dyddiol i'w gweld ar y safle ac ar ein gwefan.

www.parc-bute.com



Sganiwch y cod QR hwn i gael cyfeiriadau i'ch coeden gyntaf



sgania fi

Trefn y daith a Rhif tag:

1 3060 Masarnen Dail Pigfain
(Enw cyffredin)

Enw Botanegol:
Acer acuminatum

Ynganiad Lladin:
AY-sa ah-kew-min-AH-tum

Blwyddyn gyntaf Statws
Pencampwr: 2013

Pencampwr Uchder, Cylchfesur
neu'r ddau: C

Dyddiad plannu: 1950au

Planwyd gan: W Nelves yr Hynaf

Disgrifiad a nodweddion:

Rhisgl llwyd tywyll, yn tyfu hyd at 10 metr. Mae gan ei dail dri llabed, â dannedd siarp a chyda blaenau hir a phigfain. Bydd blodau bychan a gwyrdd yn ymddangos ym mis Ebrill/Mai. Ffrwythau coch pan yn ifanc.

2 3027 Masarnen Dartar

Acer tataricum
AY-sa tat-TAR-ih-kum
2013, C, 1950au, W Nelves yr Hynaf

Bychan ac yn lledaenu gyda rhisgl llwyd-brown. Dail gwyrdd llachar, crwn â dannedd. Mae'r blodau yn wyrdd-gwyn. Ffrwythau coch tywyll ar ddechrau'r hydref. Dail yn disgyn yn gynnar heb liw arwyddocaol.

3 2987 Derwen Emory Durango

Quercus durifolia
KWER-kus dur-i-FOL-ee-a
2013, U, 1990-91, M. Frazer

Coeden fytholwyrdd gain gyda dail bychan, gwyrdd, unigryw a syml. Mae'r blodau'n ymddangos mewn sbigau. Cnau brown.

4 2895 Oestrwydden
Carpinus betulus 'Columnaris'
Kar-PINE-us BET-u-lus
Kol-um-nah-ris
2013, C, 1950au, W Nelves yr Hynaf

Siâp colofnog a chryno. Nodedig am ei dail gwyrdd tywyll yn yr haf sy'n casglu ar ben y canghennau. Dail melyn yn yr hydref.

5 3888 Celyn Cyrliog
Ilex aquifolium 'Crispa'
I-leks x a-kwee-FOH-lee-um
KRIS-pa
2013, C, 1950au, W Nelves yr Hynaf

Cyltifar o gelyn cyffredin gyda rhisgl piws-llwyd a dail lledrog trwchus heb lawer o bigau oni bai am ben siarp â phig. Clôn gwrywaidd. Dim ffrwythau.

6 2711 Draenen y Dwyrain

Crataegus orientalis
Kra-TE-gus or-ee-en-TAH-lis
2013, U, 1950au, W Nelves yr Hynaf

Coeden fechan yn aml heb unrhyw ddrain. Rhisgl brown a bras â chennau. Dail gyda thoriadau dwfn, gwyrdd tywyll ar y top a llwyd oddi tanodd, gyda gwallt main. Blodau gwyn ac yna eirin meirch coch.

7 2741 Draenen Wen

Crataegus x sinaica
Kra-TE-gus x sign-EYE-i-ca
2013, U & C, 1950au, W Nelves yr Hynaf

Coeden fechan dalsyth, gyda rhisgl brown neu lwyd garw. Dail siâp lletem gyda dail danheddog, a llabedau dwfn. Clystyrau blodau gwyn, hufen neu binc ac yna aeron cochion.

8 2754 Draenen Binc Wylofus

Crataegus monogyna 'Pendula Rosea'
Kra-TE-gus mon-o-JIN-a
'PEND-yoo-la RO-zee-a'
2013, U & C, 1992/93, M Frazer
(Wedi'i noddi gan Clive Hall Old Girls)

Cyltifar y ddraenen wen gyffredin, *Crataegus monogyna*, gyda siâp wylofus. Mae ganddi flodau pinc ar ddiwedd y gwanwyn ac eirin meirch coch ar ddiwedd yr haf.

9 2762 Draenen Wen

Crataegus heldreichii
Kra-TE-gus held-RYE-key-eye
2013, U & C, 1950au, W Nelves yr Hynaf

Coeden fechan gyda dail â llabedau dwfn a phigau ar y pen. Yn y gwanwyn mae ganddi flodau gwyn. Aeron cochion yw'r ffrwythau.

10 2760 Draenen Wen

Crataegus meyeri
Kra-TE-gus mey-er-eye
2016, U & C, 1991-92, M Frazer

Yn cyrraedd 4m x 4m. Mae gan y blodau gwyn arogl aromatig sy'n troi yn arogl annymunol er mwyn denu gwybed er mwyn ffrwythloni. Mae ganddi aeron cochion llachar yn yr Hydref.

11 2623 Criafolen Frenhinol Cardinal

Sorbus aucuparia 'Cardinal Royal'
SORE-bus aucu-par-ee-AH
2013, U & C, 1990-91, M Frazer
(Wedi'i noddi gan Ian Grist AS)

Mae gan y Griafolen hon aeron coch llachar (dyna pam mae'n cael ei galw'n Gardinal) a siâp syth a chryno. Blodau hufen-gwyn yn y gwanwyn a dail gwyrdd tywyll yn troi'n oren. Yn tyfu i 10m.

12 2428 Afallen Flodeuog

Malus x sublobata
MALE-us x sub-LO-ba-ta
2013, U & C, 1950's, W Nelves yr Hynaf

Coeden fechan ar ffurf pyramid. Mae ei dail yn fwy cul na'r rhan fwyaf o afalau gyda llabedau ar ddail newydd weithiau. Bydd ffrwythau oren-melyn yn dod ar ôl y blodau pinc egwan.

13 2409 Afallen Oporto
Malus x purpurea 'Oporto'
MALE-us pur-PUR-ee-a
2016, U & C, 1950au, W Nelves yr Hynaf

Mae gan *Malus x purpurea* 'Oporto' flodau coch llachar yn y gwanwyn, dail coch-piws a ffrwythau coch-piws bychan.

14 1952 Afallen Chilko

Malus 'Chilko'
MALE-us 'CHIL-co's
2013, U & C, 1950au, W Nelves yr Hynaf

Coeden fechan gyda choron yn lledaenu. Dail ifanc piws gan fynd yn wyrdd wrth iddynt heneiddio. Blodau mawr pinc-rhosyn tua canol mis Ebrill. Ffrwythau piws sgleiniog tua 1.5 modfedd o hyd ym mis Awst.

15 2382 Afallen Wylofus

Malus x scheideckeri
'Excellenz Thiel'
MALE-us x shay-DECK-er-ee
Ex-CELL-enz THE-el
2015, C, 1950au, W Nelves yr Hynaf

Mae *Malus scheideckeri* 'Excellenz Theil' yn fechan ac yn hynod grog. Mae ganddi flodau hanner dwbl, sy'n binc tywyll pan fyddant ar gau ac yn wyn-pinc wrth agor.

16 2376 Afallen Felen

Malus 'Butterball'
MALE-us 'Butterball'
2017, U & C, 1991-92, M Frazer

Coeden fechan yn lledaenu gyda changhennau'n gwyro. Dail llwyd-wyrdd yn y gwanwyn ac yna'n troi'n ddail gwyrdd llachar. Blodau gwyn gydag ychydig o binc. Afalau crwn 2-3cm, melyn gydag ychydig o goch-oren.

17 2371 Afallen Cheltenham

Malus 'Cheltenham'
MALE-us 'Cheltenham'
2015, C, 1960au, W Nelves yr Hynaf

Nid oes unrhyw wybodaeth gyffredinol wedi ei ganfod ar *Malus* 'Cheltenham'. Mae'n digwydd yng nghofnodion plannu Parc Bute a Gerddi'r Dyffryn, Bro Morgannwg; credir bod y ddwy goeden wedi'u plannu yn 1960au, ond nid oes gwybodaeth ar gael am unrhyw gyltifar arall o'r goeden hon. Ym Mharc Bute, mae'r enw'n ymddangos ar fapiau gwreiddiol yr ardd goed a grëwyd gan William Nelves yr Hynaf.

18 2438 Ceiriosen Sunset Boulevard

Prunus 'Sunset Boulevard'
PRUE-nus 'Sunset Boulevard'
2013, U & C, 1995-96, M Frazer
(Rhodd gan Ysgol Uwchradd Cantonian)

Coeden gul siâp côn, sy'n troi yn hirgrwn. Mae ei dail yn ymddangos mewn lliw copr, gan droi'n wyrdd ac yna'n aur a melyn. Blodau sy'n para'n hir gyda dail, gwyn â gwawl pinc.

19 2533 Ceiriosen Flodeuog Japan

Prunus 'Ichijo'
PRUE-nus 'Ich-ijo'
2013, C, 1990/91, M Frazer
(Wedi'i noddi gan Katherine Edwards)

Coeden gollddail fechan sy'n tueddu i ledaenu a dail ifanc efydd-gwyrdd golau. Lliw cragen binc, blodau dwbl crwn crog, yn glystyrau hir yng nghanol y gwanwyn.

20 2535 Ceiriosen Japan

Prunus 'Yedo Zakura'
PRUE-nus 'Yed-o Za-KUR-a'
2005, C, 1950au, W Nelves yr Hynaf

Coeden fechan a thalsyth. Dail siâp petryal danheddog, copr a brown, sy'n troi'n wyrdd. Blodau cyn i'r dail ddod allan, ar ddechrau mis Ebrill. Mae'r blodau'n rhai hanner dwbl, pinc a gwyn, yn agor o flagur coch tywyll.